Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 23 Mai 2013**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Steve George**
Clerc Deddfwriaeth
029 2089 8148 / 029 2089 8242
PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru): Cyfnod 1 - Sesiwn Dystiolaeth 2 (Tudalennau 1 - 10)

ColegauCymru

Tystion:

Mark Jones, Cadeirydd ColegauCymru
David Jones, cyn-Gadeirydd ColegauCymru
John Graystone, Prif Weithredwr ColegauCymru

Dogfennau Ategol:

CYP(4)-16-13(p1) - ColegauCymru

### 3. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru): Cyfnod 1 - Sesiwn Dystiolaeth 3

Y Cwwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

Tystion:

David Wallace, Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Datblygu Strategol

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 5 a 6

## 5. Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru): Ystyried y dystiolaeth

Eitem 5

Sesiwn breifat

## 6. Cod Trefniadaeth Ysgolion Statudol

Eitem 6

Sesiwn breifat

Cod Trefniadaeth Ysgolion

Memorandwm Esboniadol i’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Saesneg yn unig)

# Y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth)

**Cyflwyniad i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

**Mai 2013**

ColegauCymru
Uned 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7AB
Ff: 029 2052 2500
E: helo@colegaucymru.ac.uk
W: www.colegaucymru.ac.uk

CollegesWales
Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff CF15 7AB
T: 029 2052 2500
E: hello@collegeswales.ac.uk
W: www.collegeswales.ac.uk

## Cyflwyniad

- Lluniwyd y papur hwn gan ColegauCymru i ymateb i'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth), a elwir o hyn allan y Bil ABU.

- Mae'r ymateb hwn yn canolbwyntio ar adran addysg bellach (AB) y Bil. Nid yw'r adran ar gyflenwi gwybodaeth mewn perthynas â benthyciadau a grantiau myfyrwyr yn ddadleuol ac nid oes gan ColegauCymru sylw i'w wneud.

## Statws Cyfreithiol colegau AB a sefydliadau AB yng Nghymru

- Mae ColegauCymru yn cynrychioli'r 19[1] o golegau addysg bellach (AB) a sefydliadau AB yng Nghymru.[2] Yn 2011/12, roedd 214,850 o fyfyrwyr unigol yn mynychu coleg a 229,615 o ymgofrestriadau.[3] Yn 2011/12 roedd gan y colegau drosiant o £462m gyda buddsoddiad o £365m (79% o gyfanswm yr incwm) gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith.

- Mae gan golegau AB rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyflenwi'r sgiliau sydd eu hangen ar Gymru i wneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru. Cred ColegauCymru y bydd y newidiadau sydd wedi'i gosod yn y BIL ABU o fudd sylweddol i golegau wrth iddynt barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i ddysgwyr, busnesau a chymunedau lleol.

- Mae'r colegau yn elusennau addysgol a'u diben allweddol yw darparu addysg a hyfforddiant. Ers iddynt gael eu corffori maent wedi'u hysgogi gan fuddion eu dysgwyr a'u cymunedau. Ni chânt eu gyrru gan elw.  Yn wir, byddent yn colli eu statws elusennol pe dewisent wneud hynny.

- Mae disgwyl i rôl reoleiddiol Llywodraeth Cymru dros golegau gael ei chryfhau yn fuan. Yn ddiweddar, cyflwynodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru achos i Swyddfa Cabinet y DU i Weinidogion Cymru gael eu penodi'n Brif Reoleiddiwr dros golegau AB a sefydliadau AB dynodedig yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â newidiadau a wnaed gan Ddeddf Elusennau 2006 (nad ydynt wedi'u cynnwys yn Neddf Elusennau 2011).  Mae'r colegau AB wedi croesawu rôl reoleiddiol arfaethedig newydd Llywodraeth Cymru.

- Roedd Adolygiad Humphreys[4] yn ystyried colegau AB fel mentrau cymdeithasol sy'n bodoli i ddarparu buddion cymdeithasol i'w cymunedau lleol. Yn yr ystyr hwn, maent yn sefydliadau nid-er-elw sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ond heb fod yn rhan uniongyrchol o'r llywodraeth.

---

1 Mae'r 19 yn cynnwys Coleg Harlech/CAG(G); CAG De Cymru; Coleg Cymunedol YMCA; a Choleg Merthyr Tudful, Prifysgol Morgannwg.

2 Yn y papur hwn, caiff y termau 'coleg AB' a 'coleg' eu defnyddio i gwmpasu colegau AB a sefydliadau AB.

3 *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru 2011/12 SDR 48/2013,* Llywodraeth Cymru, Mawrth 2013.

4 *Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru* (Adroddiad Humphreys), Llywodraeth Cymru, Mawrth 2011.

## Y Bil ABU: Sylwadau cyffredinol

- Mae ColegauCymru yn croesawu darpariaethau'r Bil a fyddai'n gwaredu cyfyngiadau a rheolaethau diangen penodol ar golegau mewn modd a fyddai'n galluogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i adfer i'r colegau eu statws fel 'sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd' (NPISH). Hwn oedd y statws a fodolai cyn cyhoeddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Hydref 2010 y dylai colegau AB yn y DU gael eu hystyried yn rhan o'r llywodraeth ganolog.

- Yn y Papur Gwyn ar y Bil ABU arfaethedig, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod aeddfedrwydd y sector AB yng Nghymru ac mai colegau sydd yn y safle gorau i bennu anghenion eu dysgwyr a'u cymunedau. Mae hyn yn ategu'r datganiad yn Llythyr Blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg bod colegau *"yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ein heconomi a'n cymdeithas ac wedi ymateb yn dda i anghenion unigolion a chyflogwyr yng Nghymru*".[5]

- Mae'r colegau yn cefnogi'n gryf y pwyslais y mae Llywodraeth Cymru yn rhoi ar gydweithio a chydweithredu yng Nghymru. Mae'r colegau eisoes yn cydweithio'n agos. Yn wir, mae bodolaeth ColegauCymru ynddo ei hun a'i rwydweithiau helaeth a thraddodiad o rannu arferion da dros flynyddoedd lawer yn dystiolaeth gadarn o sut mae colegau wedi cymryd at weithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn rhan allweddol o ethos y colegau yng Nghymru. Mae'r berthynas â sefydliadau AU wedi gwella'n sylweddol ac mae eisoes gan y colegau bartneriaethau ffyniannus ag ysgolion lleol, neu'n gweithio'n galed i'w datblygu.

- Mae'r colegau AB wedi ymdrechu i godi safonau a gwella eu gwasanaethau i ddysgwyr. Maent wedi ymwneud yn gadarnhaol â'r agenda Trawsnewid. Cyflawnwyd hyn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a chyda chefnogaeth ac arweiniad cryf ganddi.

- Mae'r colegau yn cydnabod eu bod yn derbyn arian y trethdalwyr, ac yn gweithredu oddi mewn i gyd-destun polisi gweinyddiaeth etholedig, ddatganoledig. Maent yn awyddus i gyflenwi'r agenda sgiliau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galw am berthynas waith adeiladol barhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r colegau, gan weithio drwy ColegauCymru, i sicrhau bod colegau yn parhau i weithredu mentrau'r llywodraeth ac yn rhannu arferion da.

- Nid yw'r Bil ABU yn effeithio ar wiriadau statudol eraill ar y colegau. Bydd y colegau AB yn dal i fod yn destun arolygiad Estyn, yn ogystal ag amryw safonau ac archwiliadau ariannol a chyfrifyddol, a'r gyfraith sy'n rheoli elusennau a chwmnïau, ac hefyd Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru.

---

[5] *Blaenoriaethau ar gyfer y Sector Addysg Bellach: 2012/13-2013/14*. Llythyr oddi wrth Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a anfonwyd i benaethiaid colegau, 29 Mai 2012.

- Roedd Llythyr Blaenoriaethau ar gyfer colegau AB y Gweinidog Addysg, a anfonwyd ym mis Mai 2012,[6] yn amlinellu pedwar maes allweddol ar gyfer y ddau sector dros y ddwy flynedd, 2012/13 a 2013/14:

    - codi safonau a chyrhaeddiad
    - gwella dilyniant a chymorth i ddysgwyr
    - ymwneud mwy â chyflogwyr ac annog menter
    - datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

    Mae'r blaenoriaethau hyn, a atgyfnerthir yn aml mewn areithiau i gynadleddau ac mewn cyfarfodydd â chynrychiolwyr ColegauCymru, yn darparu fframwaith clir a defnyddiol y mae colegau yn gweithredu ynddo ac y gallant ymateb i anghenion unigryw eu dysgwyr a'u cymunedau lleol oddi mewn iddo. Mae ColegauCymru yn cefnogi parhau â chyfeiriad polisi drwy gohebiaeth o'r fath.

- Mae ColegauCymru yn croesawu y rôl allweddol a ragwelir iddo yn y Papur Gwyn o ran *'arwain y sector a sicrhau synnwyr o gyfrifoldeb cyffredin ar draws yr holl golegau'*. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn ategu barn Adolygiad Thomas, a nododd fod ColegauCymru *'wedi dod yn sefydliad egnïol a gwerthfawr ar y cyd sy'n dangos ymrwymiad teilwng i wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru'.*[7] Mae Bwrdd ColegauCymru yn croesawu'r her hon a bydd yn dymuno cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i lunio cod llywodraethu a chod ymarfer sy'n cwmpasu'r berthynas rhwng colegau AB a Llywodraeth Cymru.

- Mae ColegauCymru yn cydnabod mai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac nad Llywodraeth Cymru, fydd yn penderfynu yn y pen draw p'un a yw colegau AB yn cael eu hystyried yn sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd neu'n endidau sector cyhoeddus y llywodraeth ganolog. Petai'r Bil arfaethedig yn newid yn hanfodol drwy welliannau sylweddol, y mae perygl y bydd yn rhagdueddu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wrthod y statws a ddymunir. Mae ColegauCymru yn credu y gall y Bil sicrhau newidiadau cadarnhaol yn ogystal â chyflawni'r nod o fodloni meini prawf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer statws NPISH a gobeithia yn fawr na fydd fersiwn derfynol y Bil, gan gynnwys unrhyw welliannau a dderbynnir wrth iddo fynd drwy'r Cynulliad, yn mynd yn groes i'r canlyniadau hyn a ddymunir.

## C1 P'un a oes angen am y Bil

- Oes, y mae angen y Bil hwn ar frys.

- Mae'r memorandwm esboniadol yn rhoi cyfrif clir o bwysigrwydd y Bil.

[6] ibid.
[7] *Strwythur y Gwasanaethau Addysg yng Nghymru (Adolygiad Thomas)* Mawrth 2011, op. cit. Pennod 5 para 16.

- Mae’n gosod tri opsiwn. Byddai gwneud dim (opsiwn 1) yn golygu bod y colegau AB yn dod yn rhan o lywodraeth ganolog.  Byddai’r colegau yn colli eu cymhelliant i gynhyrchu gwarged sydd ar hyn o bryd yn cael ei fuddsoddi i wella gwasanaethau i ddysgwyr.  Byddai’r asedau yn ogystal â’r rhwymedigaethau yn eiddo i’r Llywodraeth.  Gallai fod i hyn oblygiadau o ran yr arian a ddyrennir i Lywodraeth Cymru drwy fformiwla Barnett.

- Mae costau ychwanegol opsiwn 1 yn dangos amcangyfrif o £77,348 y flwyddyn am gostau gweinyddol a rheoli ariannol ychwanegol.  Mae’r cyfrifiad hwn yn seiliedig ar mai 18 coleg sydd. Gan dybio bod y cynlluniau uno arfaethedig presennol yn cael eu gwireddu a bod tri choleg yn debygol o fod yn eiddo yn gyfan gwbl i brifysgolion yn 2013/14, byddai cyfanswm o 12 coleg AB yn cael eu heffeithio.  Er hynny, mae ColegauCymru yn credu bod yr amcangyfrif hwn o’r costau yn llawer rhy isel.  Bu i chwaer-fudiad ColegauCymru yn Lloegr, yr Association of Colleges, egluro mewn cyfathrebiad personol i brif weithredwr ColegauCymru:

  *‘Caiff cyfrifon llywodraeth eu gweithredu i wahanol safonau cyfrifyddu rhyngwladol felly byddai gofyn i’r cyflwyniadau a wneir gan y Colegau fod ar sail wahanol (e.e. yn nhermau pennu gwerth asedau neu rwymedigaethau pensiwn cynllun pensiwn llywodraeth leol). Byddai angen i drafodion rhwng colegau a rhwng coleg a’r llywodraeth gael eu debydu. Byddai hyn yn cynnwys debygu arian oddi wrth CCAU(C), Sgiliau Adeiladu, contractau’r Weinyddiaeth Amddiffyn a thrafodion Cronfa Gymdeithasol Ewrop (sawl cant ohonynt i gyd). Mae Trysorlys y DU yn gofyn am gyllidebau a chyfrifon rheoli misol. Nid yw’n glir p’un a fyddai’r gofyniad hwn yn cael ei drosglwyddo i lawr i golegau ond byddai baich gweinyddol ychwanegol.’*

- Y golled ariannol fwyaf fyddai gwariant cyfalaf. Fel a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, byddai cyfanswm gwariant cyfalaf gan goleg mewn unrhyw flwyddyn yn cyfrif yn erbyn unrhyw gyllideb cyfalaf yr Adran Addysg a Sgiliau, nid dim ond y gyllideb cyfalaf a roddir i golegau gan Lywodraeth Cymru. Felly byddai’r rhaglen gyfalaf arfaethedig o £58.5m, y mae Llywodraeth Cymru yn talu 50% tuag ati, yn cael ei haneru – colled syfrdanol o ryw £29m.

- Mae Opsiwn 2 yn cynnig sefydlu corff ariannu tebyg i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru. Byddai’r cynnig hwn yn newid sylweddol ym mholisïau Llywodraeth Cymru a fu’n hyrwyddo ‘gwladwriaeth di-gwango yng Nghymru’ ac mae wedi uno â nifer o Gyrff a Noddir gan y Cynulliad gan gynnwys ELWa. Ni fyddai sefydlu cwango newydd, serch hynny, yn cael unrhyw effaith ar y statws a bennir i golegau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er enghraifft, mae dau gyngor cyllido yn Lloegr (er bod i’r ddau statws asiantau gweithredol, neu fe fydd yn fuan) ond mae colegau yno wedi’ pennu yn sefydliadau nid-er-elw sy’n gwasanaethu aelwydydd. Fel a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, byddai cost rhedeg cyngor cyllido ar wahân yn £1.84m y flwyddyn a fyddai’n cael ei dalu, mae’n siŵr, ar draul dysgwyr.

- Opsiwn 3 – mae’r Bil ABU (Llywodraethu a Gwybodaeth) yn angenrheidiol.

- Mae'r pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd yn deillio o Ddeddf Addysg Bellach 1992. Roedd y ddeddfwriaeth 20 oed hon, a roddodd i golegau AB eu statws corfforedig, yn newid mawr i golegau a oedd gynt yn eiddo i awdurdodau addysg lleol. Roedd yn cynnwys nifer o reolaethau a oedd yn bwysig i sector newydd a oedd yn cael ei draed dano.  21 mlynedd yn ddiweddarach ac mae pethau wedi newid cryn dipyn.  Mae ColegauCymru yn ystyried bod angen addasu Deddf 1992 yn y ffyrdd a gynigir gan y Bil ABU.

- Mae'n werth ailadrodd bod Papur Gwyn ABU wedi nodi:

  *'mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod aeddfedrwydd y sector AB yn Nghymru ac yn credu mai colegau sydd yn y safle gorau i bennu sut y dylid diwallu anghenion  eu dysgwyr a'u cymunedau lleol; yn seiliedig yn y diwylliant Cymreig cryf a bywiog o gydweithio, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r diwylliant hwn yn ganolog i lwyddiant y sector i'r dyfodol'.*

## C2 Y darpariaethau allweddol sydd wedi'u gosod yn y Bil a ph'un a ydynt yn briodol i gyflawni'r diben a nodir

- Mae'r darpariaethau allweddol yn briodol. Mae'r Bil arfaethedig yn canfod cydbwysedd priodol rhwng rhoi mwy o gyfrifoldebau i golegau reoli eu hunain a'r gydnabyddiaeth o'r angen i golegau weithio oddi mewn i'r meysydd polisi eang a osodir gan y Llywodraeth.

- Bydd gan golegau fwy o ymreolaeth dros eu hofferyn ac erthyglau llywodraethu. Er hynny, bydd dal gofyn i gyrff llywodraethu benodi pennaeth / prif weithredwr a chlerc a chynnwys dysgwyr a staff yn eu haelodaeth. Bydd diogelwch hefyd i sicrhau na fydd corff llywodraethu y cyflwyno newidiadau a fyddai'n arwain at golli statws elusen.

- Bydd ColegauCymru yn falch o gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cod llywodraethu i'r sector gan ymgorffori saith egwyddor Nolan o safonau ym mywyd cyhoeddus a rhannu'r arferion da sy'n bodoli yng Nghymru a thu hwnt.

- Mae'r Bil yn darparu diogelwch rhag i golegau allu trosglwyddo ei eiddo, hawliau a rhwymedigaethau i unrhyw gorff arall o'u dewis.  Caiff rheoliadau eu pasio yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth, ac yn nodi'r gofynion ymgynghori a'r cyrff y gellir trosglwyddo eiddo a hawliau iddynt.

- Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau ymyrryd gan gynnwys y pŵer i gyfarwyddo'r corff llywodraethu i benderfynu diddymu ei hun o dan amgylchiadau penodol, er na chaiff pŵer anghyfyngedig y gweinidogion i ddiddymu corfforaeth AB ei gadw pe ddaw'r Bil yn Ddeddf fel ag y mae.

- Mae'r Bil yn rhoi i goleg y pŵer i gynnal ei hun drwy drefniadau is-gorff megis cwmni cyfyngedig neu sefydliad elusennol corfforedig. Mae ColegauCymru yn

ymwybodol y bu i goleg yn Lloegr ddechrau ymchwilio i'r syniad o ailsefydlu ei hun yn gwmni cyfyngedig trwy warant ond y penderfynwyd yn erbyn hynny, wrth gydnabod bod gan gorfforaethau AB fynediad gwell at gyllid addysg uwch, trwyddedau Asiantaeth Ffiniau'r DU a chyfnodau hir o adfer diffygion pensiwn cynllun pensiwn llywodraeth leol o gymharu â chwmnïau cyfyngedig trwy warant. Hyd yn oed yn Lloegr felly, lle y caiff marchnad mwy cystadleuol ei hannog ym myd addysg, ni fu i'r un coleg drosglwyddo ei asedau na'i rwymedigaethau i gorff arall.

## C3 Y goblygiadau ariannol sy'n codi o'r Bil

- Fel a nodwyd yn yr ateb i gwestiwn 1, byddai costau ychwanegol pe na chaiff y Bil ei basio neu pe caiff cyngor cyllido ei sefydlu. Ar adeg o gynni ariannol, y mae'n anochel y byddai'r costau ychwanegol hyn yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir i ddysgwyr.
- Ni fyddai'r Bil ei hun yn arwain at gynnydd mewn costau. Gallai'r colegau wynebu rhywfaint o gostau cyfreithiol cymharol fach petaent yn dewis newid eu hofferyn a'u herthyglau llywodraethu. Gallai banciau osod rheolau llymach wrth roi benthyg arian.

## C4 Rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol a ph'un a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth iddynt

- Nid oes rhwystrau i weithredu'r darpariaethau allweddol. I bob diben, mae'r Bil yn cadarnhau statws y colegau fel sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd, fel y maent wedi bod ers 1993 (hyd nes i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol newid eu statws yn 2010) ac mae'r colegau AB yn ddigon aeddfed i ymdopi â'r rhyddid pellach a roddir yn y Bil.

## C5 P'un a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn codi o'r Bil

- Roedd sawl ymateb i'r Papur Gwyn yn mynegi pryder y byddai'r colegau AB a'u graddau newydd o ryddid yn anwybyddu'r polisïau a osodir gan Lywodraeth Cymru ym maes addysg bellach; yn anwybyddu cytundebau cenedlaethol ar gyflogau; yn gwerthu asedau cyhoeddus; neu hyd yn oed yn dewis preifateiddio eu hunain fel, yr honnir, sy'n digwydd yn Lloegr, ac yn canolbwyntio ar elw yn hytrach na dysgwyr a'u cymunedau.  Gall ColegauCymru roi sicrwydd clir na fydd yr un o'r rhain yn digwydd.

- Bydd ColegauCymru yn datblygu ei berthynas â Llywodraeth Cymru ymhellach. Rydym yn cydnabod bod llywodraeth etholedig yn disgwyl i'w pholisïau addysgol gael eu gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i osod amodau ynghlwm wrth y cyllid y bydd yn ei roi i'r colegau a bydd memorandwm ariannol diwygiedig.

- Er hynny, er mwyn sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn derbyn y gall colegau gael statws sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd, ni all Llywodraeth Cymru osod rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyfeiriad strategol y colegau. Nodwyd yn y Papur Gwyn ABU bod y statws a roddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol:

  *'yn cael ei bennu ar sail ble mae'r rheolaeth, yn hytrach nag ar sail perchnogaeth neu b'un a yw'r endid yn derbyn arian cyhoeddus. Mae canllawiau rhyngwladol yn diffinio rheolaeth fel y gallu i bennu polisi corfforaethol cyffredinol'.*

- Roedd y Papur Gwyn hefyd yn dyfynnu'r Llawlyfr Ewropeaidd ar Ddiffyg a Dyledion Llywodraeth sy'n nodi, yn achos ysgolion, mai:

  *'y llywodraeth gyffredinol sy'n rheoli ysgol os oes angen ei chymeradwyaeth i greu dosbarthiadau newydd, gwneud buddsoddiadau sylweddol newydd mewn trefniant cyfalaf sefydlog gros neu fenthyca; neu os y gall atal yr ysgol rhag dod â'i pherthynas â'r llywodraeth i ben.'*

- Mae pob coleg AB a sefydliad AB yng Nghymru yn aelod o ColegauCymru. O'r herwydd, mae'n cydweithio'n agos, ar ran yr holl sector AB yng Nghymru, â Llywodraeth Cymru, fel cyfaill beirniadol, yn trafod ac yn rhoi sylwadau ar bolisïau allweddol ac yn eu troi yn weithredoedd a argymhellir.

- Enghraifft dda yw'r symudiad tuag at Drawsnewid. Roedd y datblygiad hwn yn un o bolisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Gwnaeth penaethiaid AB, gyda chefnogaeth eu cyrff llywodraethu, benderfyniadau rhagweithiol i uno â cholegau eraill, ac â'u prifysgol leol mewn dau achos. Ni orfodwyd y Trawsnewid hwn gan Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, gosododd Llywodraeth Cymru ei chyfeiriad polisi ac ymatebodd y colegau yn gadarnhaol. Ni ymatebodd sectorau addysg eraill yn yr un modd.

- Ceir enghreifftiau eraill.

  - Mae cydraddoldeb cyflog, a drafodwyd rhwng ColegauCymru a'r cyd-undebau llafur ac a gyflwynwyd yn 2005/2006, wedi'i anrhydeddu gan y colegau AB.
  - Mae ColegauCymru a'r cyd-undebau llafur wedi bod yn trafod contract cyffredin am y tair blynedd diwethaf ac y maent yn agos i ddod i gytundeb.
  - Mae sawl coleg wedi cyflwyno neu yn y broses o gyflwyno cyrff llywodraethu ar ffurf aelodaeth yn unol â'r hyn a argymhellwyd gan Humphreys.

- Bydd ColegauCymru yn sicrhau ei fod yn argymell i'r colegau eu bod yn cynnal cydraddoldeb cyflog rhwng darlithwyr ac athrawon ysgol; yn anrhydeddu unrhyw gontract cyffredin os yw wedi'i gytuno â'r cyd-undebau llafur; ac yn cefnogi

cyflwyno cyrff aelodaeth yn unol â'r hyn a osodwyd yn adroddiad Humphreys ar drefniadau llywodraethu.

- Mae rhai sylwebwyr wedi codi'r mater o golegau'n cael eu cymell gan elw o ganlyniad i fwy o ryddid. Bydd colegau yn cadw statws 'sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd'. Mae hyn yn datgan yn glir nad yw colegau yn bodoli er mwyn creu elw. Bydd y colegau yn parhau yn elusennau ac mae'n debygol mai'r Prif Reoleiddiwr fydd Llywodraeth Cymru. Byddai canolbwyntio ar elw yn hytrach na'r dysgwyr yn peryglu statws coleg fel sefydliad elusennol. Er hynny, bydd y colegau yn parhau i fod y yn entrepreneuraidd ac yn ceisio cynhyrchu incwm (bron i £100m yn 2011/12) y tu allan i'r cyllid a gânt gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn helpu sefyllfa ariannol y colegau yn gyffredinol ac yn darparu refeniw ychwanegol gwerthfawr sy'n cael ei ail-fuddsoddi er budd dysgwyr.

- Yn olaf, tynnwyd sylw gan rai i athroniaeth addysg gystadleuol dros Glawdd Offa a ph'un a fyddai'r Bil ABU yn annog gweithgarwch tebyg gan golegau AB yng Nghymru. Wrth gwrs, mae agenda gwleidyddol ac addysgol gwahanol iawn yn Lloegr. Yn Lloegr, mae academïau, ysgolion rhydd, ysgolion stiwdio a cholegau technegol prifysgol yn cael eu sefydlu, gan gystadlu'n uniongyrchol yn aml â cholegau sy'n perfformio'n dda. Mae'r pwyslais ar ddewis a chystadleuaeth. Yng Nghymru, ceir agenda o bartneriaeth a chydweithredu y mae colegau wedi chwarae eu rhan yn llawn ynddo a byddant yn parhau i wneud hynny. Er hynny, nid yw'r colegau yn bod yn hunanfodlon wrth ystyried safonau ansawdd. Maent yn parhau'n gystadleuol ymysg ei gilydd yn eu hysfa i godi safonau a gwella eu gwasanaethau i ddysgwyr, cymunedau a busnesau.

## C6 Barn rhanddeiliaid

- Mae'r penaethiaid a'r cyrff llywodraethu wedi datgan yn glir eu bod yn cefnogi'r Bil. Mae'r cyrff llywodraethu yn cynnwys llywodraethwyr sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys awdurdodau lleol, y gymuned leol, byd busnes, staff a myfyrwyr.

- Mae adroddiad Llywodraeth Cymru ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn datgan bod 'yr ymatebion a dderbyniwyd gennym oddi wrth ddarparwyr dysgu yn cytuno yn gyffredinol â chynigion y Papur Gwyn. Roedd mwyafrif yr undebau llafur, ar y llaw arall, yn anghytuno â'r cynigion'.

- Mae'r cyrff llywodraethu yn cydnabod y bydd y rhyddid pellach yn rhoi mwy o gyfrifoldeb arnynt hwy. Serch hynny, bydd y rhyddid pellach hefyd yn arwain at fanteision hirdymor i ddysgwyr, busnesau lleol a chymunedau lleol.

## Q7 Lefel y manylion ar wyneb y Bil o gymharu ag unrhyw bwerau sydd wedi'u cynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth

- Ni all ColegauCymru wneud sylw ar hyn o bryd. Mae'r Bil yn canfod cydbwysedd priodol rhwng rhoi mwy o gyfrifoldebau i golegau reoli eu hunain a'r gydnabyddiaeth o'r angen i golegau weithio oddi mewn i'r meysydd polisi eang a osodir gan y Llywodraeth.

## Y Bil ABE: Casgliad

- Ar ran y colegau AB yng Nghymru, mae ColegauCymru yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Bil ABU. Mae'r Bil yn cydnabod aeddfedrwydd y sector AB a'r ffaith y bydd colegau AB yn gweithredu'n gyfrifol â'r rhyddid pellach a osodir yn y Bil.

- Bydd ColegauCymru a'r colegau yn parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ac yn ceisio gweithredu ei pholisïau sydd â'r nod o wella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i ddysgwyr, cymunedau a byd busnes.